dca
Adran Materion Cyfansoddiadol
Cyfiawnder, hawliau a democratiaeth
Department for Constitutional Affairs
Justice, rights and democracy

Diwygio Adran 703 Llwybrau Apelio trwy Dribiwnlysoedd

Ymateb i'r Ymgynghoriad
CP(R) 07/05
22/05/2006
Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r ymatebion	6
Ymatebion i Gwestiynau Penodol	7
Casgliad a'r Camau Nesaf	10
Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad	11
Meini Prawf yr Ymgynghoriad	12
Atodiad A – Rhestr o'r Rhai a Ymatebodd	13

Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, 'Diwygio Adran 703 Llwybrau Apelio trwy Dribiwnlysoedd'*:*

Mae'n cynnwys:

- cefndir yr adroddiad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad;
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad; a'r
- camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â **Laura Neale** yn y cyfeiriad isod:

Cyfarwyddiaeth Adolygiadau a Deddfwriaeth

Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
Yr Adran Materion Cyfansoddiadol
4 Abbey Orchard Street
Llundain
SW1P 2HT

Ffôn: 020 7340 6556
E-bost: laura.neal@dca.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan yr Adran yn: www.dca.gov.uk

Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Diwygio Adran 703 Llwybrau Apelio trwy Dribiwnlysoedd'[1] ar 2 Mawrth 2005. Yr oedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion i ddiwygio'r llwybrau apelio'n codi o adrannau 703-709 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 yn unol â'r cynlluniau ehangach ar gyfer diwygio gweinyddiaeth cyfiawnder a amlinellir yn y Papur Gwyn "Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus: Cwynion, Gwneud Iawn a Thribiwnlysoedd"[2].

Cynigiodd y papur ymgynghori y dylai'r hawliau apelio canlynol gael eu trosglwyddo o'r Tribiwnlys Adran 703 a'r Comisiynwyr Arbennig i'r tribiwnlys haen gyntaf newydd arfaethedig:

- penderfyniad cyntaf gan y Tribiwnlys 703 bod yna achos prima facie i Gyllid y Wlad ganslo mantais treth;
- yr hawl cadarn i apelio i'r Comisiynwyr Arbennig yn dilyn cyhoeddi hysbysiad yn canslo mantais.

Cynigir hefyd y dylid cael hawl i apelio ymlaen ar bwynt cyfreithiol, a chyda chaniatâd, i'r haen apeliadol yn unol ag awdurdodaethau eraill sy'n trosglwyddo i'r strwythur tribiwnlysoedd newydd. Byddai'r hawl hwn i apelio yn cymryd lle'r llwybrau presennol i apelio ymlaen o'r Comisiynwyr Arbennig i'r Tribiwnlys 703 neu'r Uchel Lys a'r hawl i apelio ymlaen o'r Tribiwnlys 703 i'r Uchel Lys.

Anelwyd yr ymgynghoriad at weithwyr proffesiynol ym maes cyfrifeg a'r gyfraith, sy'n cynghori cleientiaid ar ddefnyddio Adran 703 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 yn y DU.

Daeth y cyfnod Ymgynghori i ben ar 25 Mai 2005 ac y mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y bu i'r broses ymgynghori ddylanwadu ar ffurf derfynol y cynnig yr ymgynghorwyd arno.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

---

[1] Daeth Tribiwnlys Adran 703 i rym dan Adran 28 o Ddeddf Cyllid 1960.

[2] AMC Papur Gorchymyn CM 6243, cyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2004, gan Y Llyfrfa. Gellir cael mynediad at y Papur Gwyn drwy wefan yr AMC ar http://www.dca.gov.uk/pubs/adminjust/adminjust.htm

Crynodeb o'r ymatebion

1. Derbyniwyd wyth o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yr oedd saith ohonynt yn cynnwys sylwadau ar y cynigion. O'r saith hyn, yr oedd dau oddi wrth aelodau o farnwriaeth y Tribiwnlys Adran 703. Yr oedd un yn ymateb gan y Comisiynwyr Arbennig. Cafwyd dau ymateb gan y proffesiwn cyfrifeg. Ymatebodd Cyngor y Tribiwnlysoedd hefyd. Yr ydym yn ddiolchgar i bawb a roes o'u hamser i ymateb.

2. Bu i'r ymgynghoriad geisio barn ar gynigion i ddiwygio Llwybrau Apelio drwy Dribiwnlysoedd adran 703 yn unol â'r cynlluniau ehangach i ddiwygio gweinyddiaeth cyfiawnder a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Dadansoddwyd gennym i ba raddau yr oeddent yn datgan cefnogaeth neu anghytundeb, gan gymryd sylw o unrhyw faterion eraill a ddaeth i'r golwg.

3. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar dri chwestiwn: Beth yw'r ffordd orau o gynnwys yr ystyriaeth gyntaf ynglŷn ag a oes achos prima facie yn bodoli, o fewn y strwythur tribiwnlysoedd unedig arfaethedig? Beth yw'r ffordd orau o ymdrin â phrif wrandawiadau apêl yn erbyn rhybuddion a gyhoeddwyd mewn perthynas ag Adran 703? Pa lwybrau apêl pellach sydd eu hangen i sicrhau amddiffyniad digonol ar gyfer apelwyr?

4. Rhoes yr holl ymatebion ystyriaeth fanwl i'r cwestiynau gan gefnogi eu barn ag enghreifftiau a/neu ddadleuon. Yr oedd yr holl ymatebion ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion. Y rhesymau dros gefnogi a nodwyd amlaf oedd y byddai'r diwygio'n darparu llwybrau apelio symlach ac yn cynnig symlrwydd ac eglurder gweinyddol ar gyfer y defnyddiwr. Yr oedd yr holl ymatebion, bron, yn pwysleisio'r angen i faterion adran 703 gael eu penderfynu gan banelau a oedd yn cynnig lefel briodol o arbenigedd a phrofiad.

5. Yn y sylwadau sy'n dilyn, yr ydym wedi cynnwys unrhyw sylwadau perthnasol a dderbyniwyd gennym. Yr ydym wedi ceisio rhoi enghreifftiau o sylwadau sy'n cynrychioli'r farn yn gyffredinol.

Ymatebion i Gwestiynau Penodol

1. Beth yw'r ffordd orau o gynnwys yr ystyriaeth gyntaf ynglŷn ag a oes achos prima facie yn bodoli, o fewn y strwythur tribiwnlysoedd unedig arfaethedig?

Yr oedd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig y dylai ystyriaeth o'r cwestiwn a oedd achos prima facie ar gyfer canslo manteision treth yn ymwneud ag adran 703 yn bodoli ai peidio, fod yn nwylo haen gyntaf y tribiwnlys diwygiedig. Gwnaed y sylwadau canlynol gan Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr yng Nghymru a Lloegr (ICAEW): "Yn aml, y prif gwestiwn yw a wnaed y trafodion am resymau masnachol bona fide neu yn ystod y drefn arferol o wneud neu reoli buddsoddiadau. Y mae'r rhain yn eu hanfod yn gwestiynau masnachol yn hytrach na chyfreithiol – hynny yw, cwestiynau ffeithiol – ac felly'n briodol ar gyfer yr haen gyntaf."

Gwnaeth pedwar o ymatebwyr sylwadau penodol ar yr angen i banelau sy'n gwneud penderfyniadau prima facie gynnwys aelodau sydd â'r profiad a'r arbenigedd priodol. Y mae'r pedwar ymateb i gyd yn cytuno mai panelau yn cynnwys cadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol, yn cael eu cefnogi gan aelodau ag arbenigedd perthnasol ym myd masnach, arian neu fusnes, fyddai'n briodol. Byddai'r cadeirydd cyfreithiol gymwys yn gallu penderfynu ar unrhyw faterion cyfreithiol technegol. Byddai'r aelodau â phrofiad masnachol yn dod â phrofiad a fyddai'n galluogi'r panel i "graffu ar y realiti masnachol o fewn yr hon y bwriedir i'r trafodion dan sylw ddigwydd", fel y dywed y Cyngor Tribiwnlysoedd.

Gwnaeth tri o'r ymatebion sylwadau ar sut y gellid defnyddio'r wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol. Awgrymodd yr ICAEW y dylai'r panelau gael eu dewis gan berson ag arbenigedd mewn materion adran 703, uwch swyddog Tribiwnlys â chymwysterau cyfreithiol, o bosibl. Awgrymodd y Comisiynwyr Arbennig y dylai Llywydd y Tribiwnlys Treth ddewis y panelau, ar y sail mai ef/hi fyddai'n gwybod orau pa aelodau o'r farnwriaeth oedd yn meddu'r arbenigedd perthnasol.

Bu i Gyngor y Tribiwnlysoedd hefyd nodi fod gan rai apelwyr anghenion busnes brys i gael penderfyniad cyflym mewn achosion adran 703. Yr oeddent yn holi a fyddai'n ymarferol i'r Tribiwnlys osod achosion o'r fath ar drac cyflym er mwyn iddynt gael gwrandawiad a phenderfyniad buan.

2. Beth yw'r ffordd orau o ymdrin â phrif wrandawiadau apêl yn erbyn rhybuddion a gyhoeddwyd mewn perthynas ag Adran 703?

Gwnaed sylwadau penodol ar y mater hwn gan bump o'r ymatebion. Yr oedd cytundeb cyffredinol y byddai'r panelau a benderfynai ar brif wrandawiadau apêl angen yr un math o arbenigedd a phrofiad a'r rhai yr oedd eu hangen ar y panelau a wnâi benderfyniadau mewn achosion prima facie.

Awgrymodd pedwar o'r pum ymateb y dylai panel a benderfynai ar brif wrandawiad apêl gynnwys aelodau gwahanol i'r rhai a wnaeth y penderfyniad prima facie yn yr achos. Nododd y Comisiynwyr Arbennig: "Byddai llawer o bryderon yn bodoli pe byddai'r un tribiwnlys o gadeiryddion neu aelodau a wnaeth benderfyniad prima facie wedyn yn gwrando ar y brif apêl, gan y gallai sylwedydd feddwl eu bod wedi gwneud eu meddyliau i fyny ar y mater wrth benderfynu fod yna achos prima facie, ac y byddent yn annhebygol o ddod i farn arall".

Yr oedd cefnogaeth eang ar gyfer y cynnig y dylai prif apeliadau gael eu penderfynu ar haen gyntaf y tribiwnlys. Nododd yr ICAEW natur ffeithiol yn bennaf y prif apeliadau ar faterion a703 yn y cyd-destun hwn. Awgrymodd un ymateb, gan y Comisiynwyr Arbennig, y dylai prif apeliadau gael eu penderfynu gan yr ail haen os oedd y penderfyniad prima facie i'w glywed gan yr haen gyntaf. Teimlai eraill na fyddai hyn yn fater o bwys os byddid yn rhoi proses yn ei lle i sicrhau y byddai'r aelodau a ystyriai prif apêl yn wahanol i'r rhai a roes ystyriaeth i'r cais gwreiddiol.

---

3. Pa lwybrau apêl pellach sydd eu hangen i sicrhau amddiffyniad digonol ar gyfer apelwyr?

O'r pum ymateb a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn, yr oedd pedwar yn cefnogi'r cynnig y dylai apêl o'r haen gyntaf fod i ail haen y tribiwnlys. Dim ond un ymateb a awgrymodd lwybr gwahanol ar gyfer apeliadau. Yr awgrym oedd apêl o'r haen gyntaf i'r Uchel Lys.

Yr oedd cefnogaeth unfrydol ar gyfer y cynnig y dylai apeliadau o'r ail haen fynd i'r Llys Apêl. Yr oedd cefnogaeth eang i gynigion y dylai apeliadau fod ar bwynt cyfreithiol, gyda chaniatâd.

Yr oedd cytundeb cyffredinol y dylai apeliadau o'r haen gyntaf gael eu gwrando gan aelodau â phrofiad a chymwysterau tebyg i'r rhai a feddir gan farnwriaeth yr Uchel Lys. Byddai hyn yn sicrhau y byddai lefel briodol o arbenigedd ar apeliadau, gan y byddai llawer ohonynt yn gymhleth eu natur.

4. Defnyddio mwy ar ddull cymesur o ddatrys anghydfodau

Nododd Cyngor y Tribiwnlysoedd fod apelwyr a703 yn aml yn gorfod dibynnu ar arbenigwyr ar y gyfraith ac ar gyfrifeg i gyflwyno'r hyn a oedd yn agweddau hynod dechnegol ar gyfraith treth. Gallai hyn wneud apeliadau'n afresymol o ddrud. Un ffordd a allai wneud apeliadau'n fwy fforddiadwy fyddai defnyddio dull cymesur o ddatrys anghydfodau. Awgrymodd y Cyngor y gallai fod lle i gyfryngu wrth ddatrys anghydfodau a703, un ai cyn y broses apêl ei hun neu ochr yn ochr â hi. Gallai gwerthuso niwtral cynnar hefyd fod yn briodol.

Casgliad a'r Camau Nesaf

1 Bu'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynigion ar y cyfan. Bydd yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn bwrw ymlaen â diwygio Tribiwnlys Adran 703, yn unol â'r cynnig, fel rhan o ddiwygio ehangach ar y system apeliadau treth yn ei chyfanrwydd.

2 Ar gyfer diwygio'n sylfaenol y system apeliadau treth, bydd angen deddfwriaeth sylfaenol, a chyflawnir hyn fel rhan o'r ddeddfwriaeth diwygio tribiwnlysoedd ehangach y nododd y Llywodraeth fydd yn cael ei chyflwyno maes o law.

3 Yn y cyfnod cyn dyfodiad y Mesur, bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid apeliadau treth i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu'r diwygiadau.

4 Byddwn yn ystyried y sylwadau a wnaed gan Gyngor y Tribiwnlysoedd ar ddulliau cymesur o ddatrys anghydfodau yng nghyd-destun y gwaith a wneir yn y maes hwnnw o fewn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses ymgynghori** yn hytrach nag am y pwnc a drafodir yn y papur hwn, dylech gysylltu â Chydlynydd Ymgynghoriadau'r Adran Materion Cyfansoddiadol, Laurence Fiddler, ar 020 7210 2622, neu ei e-bostio ar consultation@dca.gsi.gov.uk

Neu, efallai y byddwch yn dymuno ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Laurence Fiddler
Cydlynydd Ymgynghori
Adran Materion Cyfansoddiadol
5ed Llawr Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Os yw eich cwynion neu eich sylwadau'n cyfeirio at y pwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach na'r broses ymgynghori, cyfeiriwch hwy, os gwelwch yn dda, at y person cyswllt a nodir ar dudalen 3.

Meini Prawf yr Ymgynghoriad

Mae'r chwe maen prawf fel a ganlyn:

1 Ymgynghori'n eang trwy gydol y broses, gan roi o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2 Dylid bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, ar bwy y gallent effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu codi a'r amserlen ar gyfer ymatebion.

3 Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.

4 Rhoi adborth ar yr ymatebion a dderbyniwyd, ac ar sut y mae proses yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y polisi.

5 Monitro pa mor effeithiol yw eich adran gydag ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd dynodedig ar gyfer yr ymgynghoriad.

6 Sicrhau bod yr ymgynghoriad yn dilyn ymarfer gorau ar reoleiddio gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad o Effaith y Rheoliadau os yw hynny'n briodol.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn yng nghorff pob dogfen ymgynghori.

Atodiad A – Rhestr o'r Rhai a Ymatebodd

Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr

Cyngor y Tribiwnlysoedd

Comisiynwyr Arbennig

Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon

Mr A J Ring (Aelod o Dribiwnlys Adran 703)

Mr A Spier (Aelod o Dribiwnlys Adran 703)

Mr G Jones (Cofrestrydd Tribiwnlys Adran 703)

Ernst a Young

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan Adran Materion Cyfansoddiadol
Ebrill 2006
AMC CP(R) 07/05